Dŵr Cymru
Welsh Water

## Datganiad Polisi Iechyd, Diogelwch a Lles

Mae Dŵr Cymru'n credu bod gan bawb sy'n gweithio ar ein rhan, neu y mae'r hyn a wnawn yn effeithio arnynt, yr hawl sylfaenol i ddychwelyd adref yn ddiogel ar ddiwedd pob dydd. Un o werthoedd craidd y cwmni yw 'bod yn ddiogel bob amser' ac rydym yn awyddus i sicrhau bod pawb yn cadw'n iach ac yn ddiogel yn y gwaith.

Iechyd, diogelwch a lles ein gweithwyr, ein cwsmeriaid, ein partneriaid a'n contractwyr, ein cymdogion a'r cyhoedd yw ein prif flaenoriaeth bob amser. Rydym yn ymdrechu i wella'n diwylliant diogelwch yn barhaus ac rydym am sicrhau bod pawb yn ddiogel, yn iach ac yn hapus bob dydd. Mae gennym strategaeth hirdymor i wella iechyd, diogelwch a lles er mwyn ein helpu i gyflawni ein dyheadau ein 'Siwrnai i Sero'.

Trwy'r busnes cyfan, hoffem - ac yn wir, disgwyliwn - weld diwylliant cadarnhaol a rhagweithiol ym maes iechyd a diogelwch. Mae diogelwch yn fater i bawb a dylai'r holl weithwyr ddeall bod diogelwch yn rhan annatod o'r ffordd rydym yn rheoli ein busnes ac yn cyflawni ein cyfrifoldebau. Byddwn yn darparu amodau gwaith diogel, iachus ac amgylchedd diogel lle gall y gweithwyr drafod eu hiechyd - corff a meddwl - a herio arferion anniogel.

Yn ogystal, rhaid i bawb ohonom ymdrechu bob amser i ddileu peryglon ac i leihau'r risgiau iechyd a diogelwch i ni'n hunain ac i unrhyw un arall y gallai ein gweithgareddau effeithio arnynt, o ddydd i ddydd.

Gweithredir y Polisi hwn trwy weithdrefnau manwl a systemau penodol ar gyfer gweithio'n ddiogel. Gyda'i gilydd, cynlluniwyd y rhain i sicrhau bod risgiau i iechyd, diogelwch a lles pobl yn cael eu deall yn iawn a'u rheoli mewn ffordd briodol.

**Gwnawn hyn trwy:**

- Gynnal system rheoli iechyd a diogelwch sy'n cydymffurfio â gofynion ISO 45001 ac sy'n cael ei dogfennu, ei gweithredu a'i chynnal, gan ymrwymo bob amser i sicrhau gwelliannau parhaus yn ein trefniadau.
- Trefnu rolau iechyd a diogelwch sy'n briodol i'n strwythurau o ran trefniadaeth a rheoli a hyrwyddo ymddygiad da wrth arwain trwy gyfleu disgwyliadau a chyfrifoldebau'n glir.
- Sicrhau bod ein gweithwyr a'r bobl sy'n gweithio gyda ni yn gymwys i ddiwallu gofynion ein system reoli ym maes iechyd a diogelwch ac yn gallu lleihau'r risgiau iechyd a diogelwch. Byddwn yn darparu hyfforddiant ac yn cynnwys gweithwyr wrth ddatblygu ein systemau rheoli. Mae hyn yn cynnwys risgiau i ddiogelwch o safbwynt galwedigaethol a phrosesau.
- Pennu ac adolygu amcanion iechyd a diogelwch, o leiaf bob blwyddyn, fel rhan o'n strategaeth ar gyfer gwella, a monitro a gwella ein perfformiad o ran iechyd a diogelwch yn barhaus.
- Canfod a, lle bo'n rhesymol ymarferol, fabwysiadu 'arferion gorau' wrth reoli iechyd, diogelwch a lles gan gyrraedd y safonau cydymffurfio gofynnol â'r holl ofynion cyfreithiol a gofynion perthnasol eraill a fwriedir i atal anafiadau ac afiechyd.
- Ymgynghori â'n gweithwyr ar faterion sy'n ymwneud â'u hiechyd, eu diogelwch a'u lles yn y gwaith, a mynd ati i'w hannog i'n helpu i wireddu ein hamcanion o ran iechyd, diogelwch a lles.
- Ymgynghori'n ffurfiol â'n Hundebau Llafur a'u cynnwys nhw mewn materion i wella iechyd, diogelwch a lles y gweithlu.
- Sicrhau bod pawb sy'n gweithio ar ein rhan yn gyfarwydd â'r Polisi hwn, â'n disgwyliadau ni ac â'r trefniadau sydd yn eu lle i atal anafiadau ac afiechyd.

Mae'r Bwrdd yn mynd ati i arwain ar faterion iechyd, diogelwch a lles ac yr wyf wedi fy mhenodi'n Gyfarwyddwr Gweithredol arweiniol ym maes iechyd a diogelwch. Fodd bynnag, mae ein hiechyd, ein diogelwch a'n lles ni'n hunain, ein gweithwyr ac unrhyw un y mae'r hyn a wnawn yn effeithio arnynt yn gyfrifoldeb i bawb ac mae'n ddyletswydd ar bawb i sicrhau bod yn cael ei ddeall a'i dderbyn a'i drin â'r sylw a'r difrifoldeb y mae'n ei haeddu.

Caiff y polisi hwn ei adolygu'n flynyddol a/neu pan gyfyd newidiadau arwyddocaol neu berthnasol.



**Peter Perry**
Prif Weithredwr | Dŵr Cymru
Ebrill 2024